CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

GORCHYMYN Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB (CODI TALIADAU) (CYMRU)

1. Cyfeiriwyd y Gorchymyn hwn i'r Pwyllgor i gael ei graffu o'r Pwyllgor Busnes ar 9 Mai. Dewisodd y Cadeirydd ddelio gyda'r mater hwn fel gohebiaeth.

2. Hysbyswyd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio gyntaf am y Gorchymyn drafft ym mis Gorffennaf 2005 trwy restr y Gweinidog o ddeddfwriaeth oedd i ddod. Ym mis Hydref, ail-enwyd y Gorchymyn yn Orchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Codi Taliadau ac Argyfyngau) (Cymru) i adlewyrchu cynlluniau ar y pryd hwnnw i gyfuno'r elfennau codi taliadau ac argyfyngau mewn un gorchymyn. Penderfynwyd erbyn hyn i ddychwelyd at ddau orchymyn ar wahân. Ers i'r Gorchymyn ymddangos gyntaf ar y rhestr o ddeddfwriaethau, ni ddynododd yr un Aelod yr angen am ystyriaeth bellach.

3. Nid oedd unrhyw gynigion i newid y rheoliadau ond cododd Aelodau'r pwyntiau canlynol:

- **Mae pryderon wedi'u dangos am yr anallu i wrthwynebu codi taliadau am alw allan niferus ar gyfer yr un adeiladau busnes ac a fydd galwadau allan ffug yn cael eu codi ar y person yn ogystal ag ar y sefydliad ?**

Ymateb: Rhoddodd y Gweinidog wybod fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi canllawiau yng Nghylchlythyr W-FRSC(06) 06 – Gwybodaeth Atodol i'r Awdurdodau Tân ac Achub ar ddatblygu eu Cynlluniau Lleihau Ris – a 'roedd y cyfarwyddyd hwn yn delio'n benodol gydag arwyddion tân dieisiau o larymau tân awtomatig (AFAs) fel rhan o Gynlluniau Lleihau Risg yr Awdurdodau Tân a Brys. Dywed y cylchlythyr y dylai Awdurdodau Tân a Brys asesu risg eu polisi ar gyfer ymateb i larymau tân awtomatig fel rhan o'u Cynlluniau Lleihau Risg i sicrhau nad yw newidiadau yn cynyddu'r perygl o farwolaeth neu anafiadau i'r cyhoedd. Dywedodd y ddogfen ymgynghorol oedd gyda'r Gorchymyn Taliadau drafft fod angen mwy o weithio gyda golwg ar y polisi larymau tân awtomatig a chyn ystyried ymestyn gweithgareddau taladwy, y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ymhellach. Dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd.

- **Mae sylwadau a wnaethpwyd yn yr ymgynghoriad fod geiriad gwahanol, fel sydd yn yr Alban, yn ymddangos yn fwy ffafriol**

gyda golwg ar “Ddiffodd tanau ar y môr, gwarchod bywyd yn y môr neu warchod eiddo pe digwydd tanau ar y môr” gan ei fod yn cyflwyno pŵer i godi taliadau am “warchod bywyd yn y môr ”, tra mae’r gorchymyn drafft yn gwarchod bywyd o ganlyniad i dân ar neu o dan y môr.

Ymateb: Rhoddodd y Gweinidog wybod mai’r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Morol (MIRG) oedd â’r rôl o ddelio gyda thanau ac achub ar y môr. Mae’r Grŵp yn cynnwys 15 o wasanaethau tân ac achub yng Nghymru a Lloegr, ac mae Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru yn aelodau o’r Grŵp a hwy sydd â chyfrifoldeb am ddigwyddiadau yn y moroedd o gwmpas Cymru. Mae’r Gorchymyn Codi Taliadau yn adlewyrchu gofynion Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn hynny o beth.

Janice Gregory AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio